Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr

## 2023 – 2024

# Cynnwys

3 Cynnwys

**Pennod 1:** Gwreiddio Cydraddoldeb

4 Cefndir

4 Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Ein Rôl fel Cyflogwr

4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Llywodraeth Cymru

5 Uchafbwyntiau sefydliadol 2023-2024

6 Gwrth-hiliaeth

7 Model Cymdeithasol o Anabledd

8 Targedau Amrywiaeth y Gweithlu

10 Adduned Menywod yn y Gyfraith

**Pennod 2:** Hyfforddiant a'r Gymraeg

11 Data Hyfforddiant Craidd yn ôl Nodwedd Warchodedig

15 Sgiliau Cymraeg

15 Y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

**Pennod 3:** Adnoddau a Recriwtio

16 Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2024 yn ôl Nodwedd Warchodedig

20 Dynion a Menywod yn y Gweithlu

21 Bylchau Cyflog (Rhywedd, Anabledd, Ethnigrwydd a Chyfeiriadedd Rhywiol Lleiafrifol)

22 Gweithgarwch Recriwtio yn ôl Nodwedd Warchodedig (Allanol a Mewnol)

**Pennod 4:** Cyflogwr Delfrydol

30 Bod yn gyflogwr delfrydol

30 Achrediadau, aelodaeth ac addunedau sefydliadol

31 Rhwydweithiau Staff

32 Partneriaeth Gymdeithasol

33 Ymgysylltu – Arolwg Pobl

**ATODIADAU**

35 Atodiad A: Cynrychiolaeth yn y Gweithle wedi'i dadgyfuno yn ôl Hil; Crefydd/Cred; Anabledd; Cyfeiriadedd Rhywiol a Statws Priodasol

37 Atodiad B: Ymadawyr yn ôl Nodwedd Warchodedig

40 Atodiad C: Data am Gwynion Cyflogaeth ac Achosion Disgyblu yn ôl Nodwedd Warchodedig

43 Atodiad D: Cyflog cyfwerth ag amser llawn sylfaenol cyfartalog a Bwlch Cyflog yn ôl Gradd a Rhywedd a Bylchau Cyflog Anabledd ac Ethnigrwydds

47 Atodiad E: Adduned Menywod yn y Gyfraith

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51542, ISBN digidol 978-1-83715-559-0




# Rhagair

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol ar gyfer 2023-2024. Mae'n rhoi gwybodaeth am amrywiaeth ein gweithlu, arferion recriwtio a dysgu a datblygu.**

Mae'n nodi ein bylchau cyflog a'r cynnydd a wnaed gennym o ran ein targedau. Mae'n rhoi trosolwg cryno o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy'r sefydliad cyfan.

Fel Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, rydym am fod yn sefydliad sy'n adlewyrchu holl amrywiaeth pobl a chymunedau Cymru. Mae gweithlu sy'n dwyn ynghyd brofiadau, safbwyntiau a syniadau gwahanol yn sicrhau bod ein polisïau a'n penderfyniadau yn adlewyrchu anghenion pawb yng Nghymru.

Mae'n destun siom na lwyddwyd i gyflawni ein holl dargedau recriwtio a dyrchafu uchelgeisiol yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn rhwystredig nodi bod ein bwlch cyflog rhywedd wedi cynyddu ychydig, ond ceir gwell newyddion ar ein bylchau cyflog eraill. Un ffactor sy'n debygol o gyfrannu at y bwlch cyflog rhywedd yw'r gyfran is o fenywod mewn graddau uwch. Rydym yn anelu at Uwch Wasanaeth Sifil lle ceir cydbwysedd rhywedd a byddwn yn parhau i gefnogi menywod ar bob lefel yn y sefydliad i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae partneriaeth gymdeithasol wrth wraidd ein huchelgeisiau ar gyfer cydraddoldeb, ac rydym yn cydweithio â'n hundebau llafur i sicrhau bod safbwyntiau eu haelodau yn cael eu cynrychioli. Mae ein rhwydweithiau staff a'n Bwrdd Cysgodol hefyd yn chwarae rôl hollbwysig i sbarduno amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'n Hhundebau Lllafur, ein rhwydweithiau staff a'r Bwrdd Cysgodol, sy'n gwneud cymaint i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn lle tecach a mwy cynhwysol i weithio ynddo.

Hoffwn hefyd ddiolch i Amelia John, sef Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn am ei hymrwymiad a'i harweinyddiaeth yn y rôl.



**Dom Houlihan**

Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb Interim y Bwrdd

# Pennod 1:
# Gwreiddio Cydraddoldeb

## Cefndir

Daeth Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ('Rheoliadau 2011') i rym ar 6 Ebrill 2011 fel y gall dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael ei chyflawni'n well. Mae Rheoliadau 2011 yn gosod dyletswyddau penodol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i gydymffurfio â rheoliad 9 o Reoliadau 2011 (casglu gwybodaeth am gyflogaeth). Mae'n ymwneud â chyflogeion, yn ogystal â'r rhai sydd wedi ceisio cyflogaeth yn y sefydliad. Mae'r wybodaeth a gasglwyd mewn perthynas â chyflogeion wedi cael ei rhannu'n is-gategorïau, yn ôl y nodweddion gwarchodedig a ddatganwyd ganddynt.

Diben casglu a chofnodi'r wybodaeth hon yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael trosolwg clir dros y materion cydraddoldeb a wyneba, y gall fonitro cynnydd a chyflwyno newid cadarnhaol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Ein rôl fel cyflogwr

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2024 ym mis Ebrill 2020. Ein hamcan ynglŷn â'n rôl fel cyflogwr yw:

> *"Erbyn 2024 bydd Llywodraeth Cymru yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, gan gynyddu amrywiaeth drwy: fynd i'r afael yn arbennig â thangynrychiolaeth pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel o'r sefydliad, a thangynrychiolaeth merched ar lefelau uwch; dileu rhwystrau; a galluogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb".*

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024[1] ar gael yma: **llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2020-i-2024**

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-2026 ar gael yma: **Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU**

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn Llywodraeth Cymru

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle yn flaenoriaeth allweddol, tasg a arweinir gan yr Ysgrifennydd Parhaol, y Bwrdd ac a gefnogir gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn cynnwys Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yr Uwch Wasanaeth Sifil, Cadeiryddion Rhwydweithiau Staff, Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Rhwydweithiau Staff, Uundebau Llafur a chydweithwyr Gwasanaethau Corfforaethol (Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi).

Mae'n cyfarfod bob chwarter. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r eitemau ar yr Oedrannda wedi cynnwys cynnydd o ran ein targedau recriwtio a dyrchafu, cryfhau'r ffordd rydym yn coladu ac yn dadansoddi data ar amrywiaeth y gweithlu, a gwella ein gweithgarwch allgymorth a'n harweiniad.

Mae Hyrwyddwr y Bwrdd yn rhoi diweddariadau bob chwe mis i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu. Mae'r Bwrdd Cysgodol yn parhau i roi sicrwydd o safbwynt cydraddoldeb i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod.

1 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'BAME' drwyddi draw. Dylid nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term hwn mwyach, mewn ymateb i adborth rhanddeiliad nad yw'r term yn dderbyniol mwyach.

# Uchafbwyntiau sefydliadol **2023-2024**

**Mae'r prif gyflawniadau i hyrwyddo ein huchelgeisiau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cynnwys y canlynol:**

- Pecyn allgymorth cynhwysfawr i reolwyr llinell sy'n recriwtio a ddatblygwyd i gefnogi'r broses recriwtio a denu amrywiaeth eang o ymgeiswyr

- Amcanion perfformiad mesuradwy ym maes gwrth-hiliaeth a'r model cymdeithasol o anabledd a gyflwynwyd ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil er mwyn cryfhau atebolrwydd

- System recriwtio ar-lein newydd (CAIS) wedi'i chyflwyno, sy'n ei gwneud yn bosibl i recriwtio'n ddienw, sy'n lleihau'r risg o ragfarn ddiarwybod yn y broses recriwtio

- Mae adolygiad annibynnol o bolisïau a phrosesau adnoddau dynol o safbwynt gwrth-hiliol yn mynd rhagddo, yn unol ag ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

- Mae arlwy dysgu newydd 'Deall a chefnogi cymunedau LHDTC+', a ddatblygwyd ar y cyd â'n rhwydwaith staff LHDTC+, wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus

- Ail-lansio rhaglen datblygu Anelwn i gydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n ystyried camu ymlaen yn eu gyrfaoedd, a ddatblygwyd ar y cyd â'n rhwydwaith staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

- Digwyddiadau ar-lein i'r holl staff er mwyn meithrin dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a dathlu Diwrnod Rhwydweithiau

- Amrywiaeth o weithgareddau a/neu ddigwyddiadau ar themâu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i ymgysylltu â'r staff drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Gwelededd Traws, Diwrnod Pobl Anabl y CU, Mis Hanes LHDT+, Mis Hanes Pobl Ddu a Diwrnod Menopos y Byd

## Gwrth-hiliaeth

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi gweledigaeth lle mae Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu hariannu yn wrth-hiliol, gyda diwylliant o ddim goddefgarwch at hiliaeth drwy'r sector cyhoeddus cyfan. Mae'n rhaid inni arwain y ffordd, gan ymgorffori gwrth-hiliaeth yn ein holl bolisïau ac arferion er mwyn cryfhau amrywiaeth ein gweithlu a dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ethnig leiafrifol. Cydnabuwyd gwaith cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yng Ngwobrau 2023 y Gwasanaeth Sifil, pan wnaethant ennill y categori Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Er mwyn gwireddu ein huchelgais i Lywodraeth Cymru ddod yn sefydliad gwrth-hiliol, y flwyddyn hon rydym wedi:

- Penodi ymgynghoriaeth allanol i adolygu ein polisïau a'n prosesau adnoddau dynol o safbwynt gwrth-hiliol, a disgwylir i adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2024
- Ei gwneud yn ofynnol i'n huwch-arweinwyr bennu amcan perfformiad mesuradwy sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth (neu'r model cymdeithasol o anabledd)
- Cryfhau ein cwricwlwm dysgu a datblygu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'r staff ymhellach er mwyn sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn cael ei hymgorffori
- Tynnu sylw at ein hymrwymiad i wrth-hiliaeth drwy ein prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol, gan nodi dyddiadau ac ymgyrchoedd pwysig gan gynnwys Mis Hanes Pobl Ddu, Wythnos Cydraddoldeb Hil, a Mis Codi Ymwybyddiaeth o Islamoffobia
- Cefnogi Rhwydwaith y Staff Ethnig Leiafrifol a'i fenter 'Rhannu Lleoedd', lle y caiff aelodau o'r staff eu hannog i ofyn cwestiynau a rhannu profiadau ynglŷn â hil a gwahaniaethu ar sail hil mewn lle diogel ac adeiladol
- Lansio 'Anelwn', ein rhaglen datblygu i gydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar ei newydd wedd, a disgwylir i adolygiad gael ei gynnal ar ôl y 12 mis cyntaf

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau ffisegol a sefydliadol sy'n gyffredin mewn cymdeithas, sy'n atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a rhag cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.

## Y flwyddyn hon, rydym wedi:

- Ei gwneud yn ofynnol i'n huwch-arweinwyr bennu amcan perfformiad mesuradwy sy'n ymwneud â'r model cymdeithasol o anabledd (neu wrth-hiliaeth)
- Rhoi hyfforddiant ar y model cymdeithasol i staff, a ddatblygwyd gan grŵp rhanddeiliaid sydd â phrofiad bywyd ac arbenigedd
- Parhau i gryfhau ein proses addasiadau recriwtio, sydd â'r nod o ddileu rhwystrau a achosir gan y ffordd rydym yn asesu ymgeiswyr wrth recriwtio, ac a fydd yn annheg i ymgeiswyr anabl os na chânt eu haddasu
- Parhau i wneud addasiadau yn y gweithle ar gyfer cydweithwyr anabl. Rydym yn cydnabod y rhwystrau cymdeithasol neu'r rhwystrau yn y gweithle a all achosi anfantais i bobl, ac rydym yn ymrwymedig i ddileu'r rhwystrau hynny
- Parhau i gefnogi ein Rhwydweithiau a Grwpiau Staff ym maes Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd, Niwrowahaniaeth, BSL a Thinitws, y mae pob un ohonynt yn cynnig adborth ac arbenigedd gwerthfawr ar ran eu haelodau
- Penodi pedwar Hyrwyddwr Cyflogaeth Anabledd i helpu pobl anabl i gael cyflogaeth ledled Cymru. Eu rôl yw rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr ledled Cymru ynglŷn â sut i recriwtio a chadw talent anabl

## Targedau Amrywiaeth y Gweithlu

Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth hanesyddol staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein gweithlu, a thangynrychiolaeth menywod mewn uwch-rolau arwain. Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn pennu targedau uchelgeisiol. Er mwyn sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn gynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu, ein nodau uchelgeisiol yw:

### Recriwtio allanol:

- Erbyn 2026, rydym am i 20% o'r bobl a benodwn fod yn bobl anabl
- Erbyn 2026, rydym am i 20% o'r bobl a benodwn ddod o leiafrif ethnig
- Erbyn 2026, rydym am i fwy na 50% o'r penodiadau i'r Uwch Wasanaeth Sifil fod yn fenywod
- Erbyn 2030, rydym am i 30% o'r bobl a benodwn fod yn bobl anabl.

### Recriwtio mewnol:

- Dyrchafu staff anabl ar lefel sy'n rhagori ar eu cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru
- Dyrchafu staff ethnig leiafrifol ar lefel sy'n rhagori ar eu cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru
- Bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

### Er mwyn ein helpu i gyflawni ein targedau, y flwyddyn hon rydym wedi:

Cyhoeddi canllawiau allgymorth a chymorth wedi'u cryfhau er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio o'r gronfa ehangaf bosibl o dalent ac yn codi ymwybyddiaeth o Lywodraeth Cymru fel cyflogwr ymhlith ysgolion a chymunedau

Parhau i adolygu hysbysebion swydd a phrosesau asesu er mwyn sicrhau eu bod yn deg, yn gymesur, ac yn gynhwysol i bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd a hunaniaethau

Gweithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddatblygu trafodaeth bord gron â nifer o bartneriaid er mwyn rhannu arferion gorau ac arloesedd ym maes allgymorth a recriwtio cynhwysol sydd i'w chynnal ym mis Ebrill 2024

Parhau i wella'r ffordd rydym yn ymgymryd â 'Gweithredu Cadarnhaol' fel y'i nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010

Cwblhau'r gwaith o gyflwyno proses recriwtio 'dim enw' ar gyfer ymgyrchoedd mewnol ac allanol, a fydd yn lleihau'r risg o ragfarn ddiarwybod yn y broses recriwtio.

## Cynnydd o ran Targedau Recriwtio a Chamu Ymlaen mewn Gyrfa

Pan gyhoeddwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu gennym yn 2021, cydnabuwyd y bydd "cyrraedd y targedau [recriwtio] uchelgeisiol iawn hyn yn heriol dros ben ac yn dibynnu ar ffocws a buddsoddiad parhaus". Mae heriau cyllidol y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau ar gyfer y gweithlu, gan gyfyngu ar y cynnydd rydym wedi llwyddo i'w wneud i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

Rydym wedi canolbwyntio ar gydbwyso fforddiadwyedd ag ymrwymiad parhaus i'n hamcanion cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth. Er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol ar y ffordd rydym yn gweithredu, mae'n dda gennym nodi ein bod wedi llwyddo i gyflawni ein targed ar gyfer dyrchafu menywod i uwch rolau yn fewnol, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol dros dair blynedd o ran dyrchafu staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fewnol.

Fodd bynnag, nid ydym eto ar y trywydd cywir i gyflawni ein targedau uchelgeisiol o ran recriwtio allanol. Hefyd, mae'r data yn awgrymu dirywiad yn y cynnydd ers 2022 o ran dyrchafu pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fewnol a'u recriwtio'n allanol. Er bod hyn y siomedig ar y cyfan, mae'r ffigurau yn adlewyrchu ymateb angenrheidiol y sefydliad i heriau cyllidebol a'r effaith ar recriwtio a chamu ymlaen. Fodd bynnag, eEr bod y cyd-destun cyllidol ehangach wedi effeithio ar y cynnydd a wnaed tuag at ein huchelgais, nid yw wedi effeithio ar ein hymrwymiad.

| Recriwtio: | Targed | % a recriwtiwyd/a ddyrchafwyd yn 2023 | % a recriwtiwyd/a ddyrchafwyd yn 2022 | % a recriwtiwyd/ a ddyrchafwyd dros strategaeth 3 blynedd | Targed wedi'i gyflawni yn 2023 | Targed wedi'i gyflawni dros y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl Anabl | 20.0% | 4.0% | 5.2% | 4.9% | Heb ei gyflawni | Heb ei gyflawni |
| Pobl Ethnig Leiafrifol | 20.0% | 3.7% | 7.5% | 5.4% | Heb ei gyflawni | Heb ei gyflawni |
| Menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | 50.0% | 36.4% | 20.0% | 47.9% | Heb ei gyflawni | Heb ei gyflawni |
| **Dyrchafu:** | | | | | | |
| Staff Anabl | 5.8% | 3.8% | 7.3% | 5.9% | Heb ei gyflawni | Wedi'i gyflawni |
| Staff Ethnig Leiafrifol | 2.7% | 2.4% | 3.8% | 3.4% | Heb ei gyflawni | Wedi'i gyflawni |
| Menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | 50.0% | 62.5% | 37.5% | 60.5% | Wedi'i gyflawni | Wedi'i gyflawni |

Mae'r data hyn yn cyfeirio at y flwyddyn galendr. Mae'r data yng ngholofn 2 ar gyfer y flwyddyn galendr o fis Ionawr 2023 i fis Rhagfyr 2023 ac maent yn seiliedig ar ddyddiadau dechrau (yn hytrach na'r dyddiad recriwtio).

## Menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil

Ar 31 Mawrth 2024, roedd canran y menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 42.7%, dim newid ers y flwyddyn ddiwethaf. Er gwaethaf hyn, llwyddwyd i gyflawni ein targedau ar gyfer dyrchafu a recriwtio menywod i'r Uwch Wasanaeth Sifil ar adegau yn ystod y flwyddyn.

Oherwydd y niferodd cymharol fach yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, mae'r ffigur yn amrywio eithaf tipyn yn seiliedig ar hyd yn oed niferoedd bach yn ymuno neu'n gadael.

### Adduned Menywod yn y Gyfraith

Mae Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydraddoldeb rhywedd ac ymrwymodd i Adduned Menywod yn y Gyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr ym mis Chwefror 2020. Mae'r adduned yn cadarnhau ymrwymiad yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud y canlynol:

- Cefnogi menywod i gamu ymlaen i uwch swyddi yn y proffesiwn
- Pennu cynlluniau a thargedau clir ynghylch cydraddoldeb rhywedd ac amrywiaeth
- Cyhoeddi cynllun gweithredu ynghyd ag adroddiad cyhoeddus ar gynnydd
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi manylion am adduned Menywod yn y Gyfraith yn flynyddol yn Adroddiad Cydraddoldeb y Cyflogwr. Maent ar gael yn Atodiad E

# Pennod 2:
# Hyfforddiant



## Data Hyfforddiant Craidd yn ôl Nodwedd Warchodedig

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi staff i ddatblygu a ffynnu. Caiff cydweithwyr eu hannog i ymgymryd â dysgu hunangyfeiriedig, a chwilio am y cyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu dull o ddysgu a'u hanghenion o'n catalog dysgu cynhwysfawr.

Nodir isod ddadansoddiad o bresenoldeb ar gyfer yr holl hyfforddiant craidd yn ôl nodwedd warchodedig. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a gafwyd gan staff parhaol a staff dros dro a gofnodwyd drwy'r Lab Dysgu, sef system rheoli dysgu ganolog y sefydliad.

Ni allwn ddarparu data ar gyflogeion sydd wedi 'gwneud cais am hyfforddiant a ph'un a oeddent yn llwyddiannus'. Mae ein hyfforddiant craidd ar gael i bob aelod o'r staff ac nid oes angen gwneud cais amdano.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos cyfraddau presenoldeb ar gyrsiau dysgu a datblygu corfforaethol ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw gyfleoedd dysgu eraill a allai fod wedi bod yn rhai allanol, wedi cael eu trefnu'n anffurfiol neu ar lefel adran/tîm. Mae 'presenoldeb' yn cyfeirio at nifer y lleoedd a lenwyd ar gwrs hyfforddiant, ac mae 'yn bresennol' yn cyfeirio at nifer y cyflogeion, felly mae'n bosibl y bydd cyflogeion unigol yn cael eu cyfrif nifer o weithiau o dan 'presenoldeb'.

**Tabl 1** – Presenoldeb mewn hyfforddiant craidd yn ôl nodwedd warchodedig

| Rhyw | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Menywod | 30,040 | 2,520 | 69.5% | 66.0% |
| Dynion | 13,190 | 1,300 | 30.5% | 34.0% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Oedran | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| 16-24 | 1,520 | 50 | 3.5% | 1.4% |
| 25-29 | 3,180 | 190 | 7.4% | 4.9% |
| 30-34 | 4,100 | 320 | 9.5% | 8.3% |
| 35-39 | 4,490 | 390 | 10.4% | 10.2% |
| 40-44 | 6,060 | 570 | 14.0% | 14.9% |
| 45-49 | 6,870 | 660 | 15.9% | 17.4% |
| 50-54 | 6,190 | 580 | 14.3% | 15.2% |
| 55-59 | 6,170 | 570 | 14.3% | 15.0% |
| 60-64 | 3,530 | 350 | 8.2% | 9.2% |
| 65+ | 1,120 | 140 | 2.6% | 3.7% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Anabledd | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Anabl | 3,410 | 280 | 7.9% | 7.3% |
| Ddim yn Anabl | 34,530 | 3,260 | 79.9% | 85.6% |
| Heb ddatgan | 5,090 | 260 | 11.8% | 6.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 200 | 20 | 0.5% | 0.4% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Hil | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Arabaidd | 20 | * | 0.0% | 0.1% |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 70 | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 50 | 10 | 0.1% | 0.2% |
| Asiaidd – Indiaidd | 280 | 20 | 0.7% | 0.5% |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 100 | 20 | 0.2% | 0.4% |
| Du – Affricanaidd | 100 | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Du – Caribïaidd | 70 | 10 | 0.1% | 0.2% |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | * | 0.0% | 0.0% |
| Asiaidd a Gwyn Cymysg | 290 | 20 | 0.7% | 0.4% |
| Du Affricanaidd a Gwyn Cymysg | 100 | * | 0.2% | 0.1% |
| Du Caribïaidd a Gwyn Cymysg | 180 | 10 | 0.4% | 0.2% |
| Cefndir Asiaidd Arall | 20 | 10 | 0.0% | 0.1% |
| Unrhyw Gefndir Du Arall | 0 | * | 0.0% | 0.3% |
| Grŵp Ethnig Arall | 180 | 10 | 0.4% | 0.4% |
| Cefndir Ethnig Cymysg Arall | 150 | 20 | 0.3% | 0.5% |
| Gwyn | 36,040 | 3,320 | 83.4% | 87.1% |
| Heb ddatgan | 3,960 | 230 | 9.2% | 5.9% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,610 | 140 | 3.7% | 3.7% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Crefydd/Cred | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Agnosticiaeth | 3,170 | 260 | 7.3% | 7.0% |
| Anffyddiaeth | 3,810 | 370 | 8.8% | 9.7% |
| Baha'i | 20 | * | 0.0% | 0.0% |
| Bwdhaeth | 90 | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Cristnogaeth | 14,280 | 1,350 | 33.0% | 36.0% |
| Hindŵaeth | 80 | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Dyneiddiaeth | 100 | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Islam | 230 | 30 | 0.5% | 0.7% |
| Jainiaeth | 0 | * | 0.0% | 0.0% |
| Iddewiaeth | 30 | 10 | 0.1% | 0.1% |
| Dim Crefydd/Cred | 8,000 | 630 | 18.6% | 16.6% |
| Crefydd/Cred Arall | 760 | 70 | 1.8% | 1.8% |
| Paganiaeth | 110 | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Sikhiaeth | 40 | * | 0.1% | 0.1% |
| Taoaeth | 10 | * | 0.0% | 0.0% |
| Heb ddatgan | 8,120 | 800 | 18.8% | 20.9% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4,390 | 260 | 10.2% | 6.8% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 30,910 | 2,930 | 71.5% | 76.9% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 2,350 | 180 | 5.4% | 4.8% |
| Heb ddatgan | 5,710 | 300 | 13.2% | 7.9% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4,250 | 390 | 9.8% | 10.3% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Mamolaeth/Beichiogrwydd** | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Na | 42,720 | 3,750 | 98.8% | 98.4% |
| Ie | 510 | 60 | 1.2% | 1.6% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

**Yn ystod y cyfnod adrodd, nid o reidrwydd ar adeg yr hyfforddiant

| Statws Priodasol | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Priod/Partneriaeth Sifil | 19,930 | 1,910 | 46.1% | 50.0% |
| Statws Arall | 9,600 | 910 | 22.2% | 23.8% |
| Sengl | 13,500 | 990 | 31.2% | 25.9% |
| Heb ddatgan | 200 | 10 | 0.5% | 0.3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

| Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Presenoldeb | Unigolion | Presenoldeb | Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Ddim yr un peth | 140 | 10 | 0.3% | 0.2% |
| Yr un peth | 24,900 | 2,080 | 57.6% | 54.4% |
| Heb ddatgan | 17,130 | 1,650 | 39.6% | 43.3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,060 | 80 | 2.4% | 2.2% |
| **Cyfanswm[1]** | **43,230** | **3,810** | | |

## Sgiliau Cymraeg

**Tabl 2a** – Sgiliau iaith staff sy'n gallu defnyddio pob sgìl ym mhob sefyllfa yn y gwaith, neu'r rhan fwyaf ohonynt

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Darllen | 1,480 | 24.4% |
| Siarad | 1,350 | 22.2% |
| Deall | 1,460 | 23.9% |
| Ysgrifennu | 1,170 | 19.2% |

**Tabl 2b** – Sgiliau a ddatganwyd gan staff ar bob lefel o allu yn y Gymraeg (o ddechreuwyr i siaradwyr rhugl)

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Darllen | 3,620 | 59.5% |
| Siarad | 3,080 | 50.6% |
| Deall | 3,440 | 56.6% |
| Ysgrifennu | 2,720 | 44.8% |

Y staff eu hunain sy'n datgan eu sgiliau Cymraeg ar sail wirfoddol ar ein system Adnoddau Dynol.

### Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer gweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dyblu'r defnydd beunyddiol o'r iaith yn ei strategaeth i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg, yma: **Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU**. O fewn y sefydliad, ei huchelgais yw dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, fel y'i nodwyd yn Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd, ein strategaeth ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg **www.llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd**.

# Pennod 3:
# Adnoddau a Recriwtio

## Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2024 yn ôl Nodwedd Warchodedig

Caiff aelodau o'r staff eu hannog i nodi eu gwybodaeth bersonol (e.e. hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac ati) ar ein system adnoddau dynol. Mae hunanddatganiad yn ein helpu i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau cywir ar waith gennym i gefnogi ein staff ac i fesur i ba raddau rydym ni fel sefydliad yn adlewyrchu'r boblogaeth a'r cymunedau a wasanaethwn yng Nghymru.

Mae'n gwbl wirfoddol, ac yn ôl disgresiwn y cyflogai, faint o wybodaeth neu gyn lleied o wybodaeth y mae'n ei datgan.


Ystyr 'Heb ddatgan' yn yr adroddiad hwn yw nad yw aelod o'r staff wedi nodi unrhyw ateb i gwestiwn monitro amrywiaeth ac ystyr 'Gwell gennyf beidio â dweud' yw bod aelod o'r staff wedi mynd ati'n weithredol i ddewis peidio â datgan yr wybodaeth a geisiwyd i gwestiwn penodol er mwyn monitro amrywiaeth. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd ein staff, mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw pump wedi'u hatal a'u dynodi â *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu. Mae'r cyfansymiau wedi'u cyfrifo ar sail niferoedd gwirioneddol cyn talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu. Mae'r canrannau yn seiliedig ar gyfanswm y cyfrif pen (6140) a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad.

Mae nifer y gweithlu wedi cynyddu ychydig (o 6080 i 6140 o weithwyr) ond mae'r cymysgedd amrywiaeth cyffredinol wedi aros yn gymharol sefydlog dros y 12 mis diwethaf.

Rydym yn defnyddio'r termau Anabledd ac Ailbennu Rhywedd yn yr adroddiad hwn i fod yn gyson â Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn defnyddio terminoleg ychwanegol wrth weithio gyda staff ac ar gyfer polisïau adnoddau dynol, er mwyn bod yn gynhwysol. Mae ein holl bolisïau yn cynnwys pob aelod o'n staff, ni waeth beth fo'i sefyllfa o ran oedran, priodas a phartneriaeth sifil (gan gynnwys yr un rhyw a'r rhyw arall), beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd, p'un a oes ganddo gyflwr iechyd na ph'un a yw'n niwroamrywiol neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym yn cydnabod nad yw diffiniadau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'n benodol bod 'hunaniaeth rhywedd' a 'mynegiant rhywedd' yn nodweddion gwarchodedig, ond credwn fod polisi'r Llywodraeth sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer yr unigolion hynny sy'n ystyried eu hunain yn bobl 'draws' (yn hytrach nag ar sail rhywedd deuaidd) yn ddull gweithredu mwy cynhwysol ac mae'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru mewn sefyllfa well i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a hybu llesiant yng Nghymru.


**Tabl 3** – Gweithlu yn ôl Rhyw

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Menywod | 3,710 | 60.4 |
| Dynion | 2,430 | 39.6 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |





**Tabl 4** – Gweithlu yn ôl Oedran

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| 16-24 | 130 | 2.0 |
| 25-29 | 420 | 6.8 |
| 30-34 | 540 | 8.8 |
| 35-39 | 680 | 11.2 |
| 40-44 | 980 | 15.9 |
| 45-49 | 880 | 14.3 |
| 50-54 | 910 | 14.9 |
| 55-59 | 850 | 13.8 |
| 60-64 | 550 | 8.9 |
| 65+ | 200 | 3.3 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |





**Tabl 5** – Gweithlu yn ôl Anabledd

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Anabl | 400 | 6.4 |
| Ddim yn Anabl | 5,360 | 87.3 |
| Heb Ddatgan | 360 | 5.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 20 | 0.3 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |




**Tabl 6** – Gweithlu yn ôl Hil

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ethnigrwydd Arall | 190 | 3.0 |
| Gwyn | 5,370 | 87.5 |
| Heb ddatgan | 340 | 5.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 240 | 4.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |





**Tabl 7** – Gweithlu yn ôl Crefydd neu Gred

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 2,230 | 36.4 |
| Dim Crefydd/Cred | 930 | 15.2 |
| Crefydd/Cred Arall | 1,260 | 20.5 |
| Heb ddatgan | 390 | 6.3 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,330 | 21.7 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |





**Tabl 8** – Gweithlu yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 4,760 | 77.6 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 270 | 4.4 |
| Heb Ddatgan | 420 | 6.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 680 | 11.1 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |




**Tabl 9** – Gweithlu yn ôl Statws Priodasol

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Priod/Partneriaeth Sifil | 2,920 | 47.6 |
| Statws Arall | 680 | 11.1 |
| Sengl | 1,560 | 25.4 |
| Heb Ddatgan | 980 | 15.9 |
| *Gwell gennyf beidio â dweud* | *0* | *0* |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |





**Tabl 10** – Gweithlu yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Na | 6,070 | 99.0 |
| Ie | 60 | 1.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |




**Tabl 11** – Gweithlu yn ôl Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni)

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Na (ddim yr un peth) | 10 | 0.2 |
| Ie (yr un peth) | 3,010 | 49.0 |
| Heb ddatgan | 2,990 | 48.8 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 120 | 2.0 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |




Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd y cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

## Dynion a Menywod yn y Gweithlu

Mae Rheoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol inni gasglu a chyhoeddi dadansoddiad o nifer y cyflogeion benywaidd a gwrywaidd yn ôl swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio. Dylai hyn roi syniad clir o ddosbarthiad a lefelau swyddi. Mae hyn yn helpu i nodi gwahaniaethau cyflog ar sail rhywedd, yn ogystal â materion eraill yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd, fel gwahanu galwedigaethol.

Mae'r wybodaeth am amrywiaeth ar ein systemau adnoddau dynol yn darparu'r data isod, sy'n rhoi gwell syniad inni am y cydbwysedd rhywedd[2] ac yn ein galluogi i wneud cymariaethau rhwng dynion a menywod.

**Tabl 12** – Proffesiwn

| Proffesiwn | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Cyfathrebu | 100 | 70 |
| Economeg | 20 | 30 |
| Peirianneg | 10 | 30 |
| Rheoli Cyfleusterau | 30 | 40 |
| Cyllid | 200 | 140 |
| Iechyd | 140 | 80 |
| Adnoddau Dynol | 170 | 60 |
| Archwilio Mewnol | 10 | 10 |
| Rheoli Gwybodaeth/Llyfrgell | 50 | 60 |
| Arolygwyr | 200 | 60 |
| Technoleg Gwybodaeth | 80 | 160 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 130 | 60 |
| Marchnata | 50 | 20 |
| Cyflawni Gweithredol | 960 | 680 |
| Cynllunio | 40 | 40 |
| Cyflawni Polisi | 1,040 | 640 |
| Caffael a Rheoli Contractau | 50 | 30 |
| Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau | 70 | 50 |
| Ymchwil Gymdeithasol/ Ymchwil i'r Farchnad | 70 | 40 |
| Gwyddoniaeth | 30 | 30 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol | 150 | 20 |
| Ystadegau | 60 | 60 |
| Syrfewyr | 10 | 20 |
| Cyfieithu | 30 | 10 |
| Gwasanaethau Milfeddygol | * | 10 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,710** | **2,430** |

**Tabl 13** – Gradd

| Gradd | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| SCSPS | * | * |
| SCS3 | * | * |
| SCS2 | 10 | 30 |
| SCS1 | 70 | 80 |
| Gradd 6 | 110 | 120 |
| Gradd 7 | 560 | 430 |
| Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) | 850 | 510 |
| Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) | 930 | 490 |
| Swyddog Gweithredol (EO) | 600 | 430 |
| Cymorth Tîm | 530 | 310 |
| Arall | 40 | 40 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,710** | **2,430** |

**Tabl 14** – Math o Gontract

| Contract | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Parhaol | 3,550 | 2,330 |
| Dros Dro | 150 | 110 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,710** | **2,430** |

**Tabl 15** – Patrwm Gweithio

| Patrwm Gweithio | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Llawn Amser | 2,740 | 2,180 |
| Rhan-amser | 960 | 250 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,710** | **2,430** |

2 Rydym yn cydnabod nad yw pob hunaniaeth rhywedd yn ddeuaidd. Gall unigolion fod yn rhyweddhylifol neu'n anneuaidd. Mae sawl hunaniaeth rhywedd a all fod gan bobl, ac efallai y bydd unigolion yn dewis newid eu hunaniaeth dros amser i hunaniaeth wahanol ar fwy nag un achlysur. Fodd bynnag, ar hyn o bryd yn y DU, nid yw pobl anneuaidd yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol. Mae hyn yn golygu mai dim ond yr opsiynau 'gwryw' neu 'benyw' sydd ar ddogfennau swyddogol.

# Bylchau Cyflog (Rhywedd, Anabledd, Ethnigrwydd a Chyfeiriadedd Rhywiol Lleiafrifol)

## Bwlch Cyflog Rhywedd

Mae bwlch cyflog rhywedd cymedrig[3] o 6.08% yn Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2024

Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 5.77% ym mis Mawrth 2023. Dyma'r cynnydd cyntaf ar ôl gostwng o 7.02% ym mis Mawrth 2021 ac erys y bwlch cyflog yn is nag ydoedd yn y blynyddoedd cyn 2023. Un ffactor sy'n debygol o gyfrannu at y bwlch cyflog rhywedd yw'r cyfrannau is o fenywod mewn graddau uwch.

Ar 31 Mawrth 2024, ceir bwlch cyflog rhywedd canolrifol[4] o 0% yn Llywodraeth Cymru, sy'n golygu mai'r un yw'r cyflog canolrifol i ddynion a menywod sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru.

Er bod y sefydliad yn cyflogi mwy o fenywod na dynion yn gyffredinol, nid ydynt wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y graddau. Menywod sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r staff ar raddau is.

Byddwn yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'n bwlch cyflog rhywedd drwy helpu menywod ar bob lefel o'r sefydliad i ddatblygu eu gyrfaoedd a chamu ymlaen ynddynt a thrwy barhau â'n hymdrechion i greu Uwch Wasanaeth Sifil lle ceir cydbwysedd rhywedd.

## Bwlch Cyflog Ethnigrwydd a Bwlch Cyflog Anabledd

Mae'r fethodoleg ar gyfer y bwlch cyflog ethnigrwydd a'r bwlch cyflog anabledd yn efelychu'r fethodoleg newydd ar gyfer y bwlch cyflog rhywedd.

Mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig wedi lleihau o 4.13% ym mis Mawrth 2023 i 3.78% ym mis Mawrth 2024, a'r bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol yw 0%.

Mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd wedi bod yn lleihau ers 2021. Gall newidiadau bach yn y cymysgedd graddau gael effaith fawr gan fod y niferoedd yn fach, felly gallai cynnydd yn nifer y staff ar raddau uwch a chamau i recriwtio staff ar raddau is fod wedi cael effaith. O'r herwydd, gallwn ddisgwyl i'r bwlch cyflog ethnigrwydd fod yn gyfnewidiol dros amser ac felly dylid cymryd gofal wrth ddehongli newidiadau.

Ceir bwlch cyflog anabledd cymedrig o 4.10%, sydd wedi gostwng o 5.83% ym mis Mawrth 2023 a cheir bwlch cyflog anabledd canolrifol o 0%.

## Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol

Rydym wedi dadansoddi bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae wedi bod yn negatif bob blwyddyn sy'n dynodi cyflog uwch i staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol.

Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol cymedrig wedi parhau i fod yn negatif, sef -1.44% ym mis Mawrth 2024, sy'n dynodi bod cyflogau staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol ychydig yn uwch ar gyfartaledd na chyflogau staff heterorywiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein bylchau cyflog yn Atodiad D.

3 Y bwlch cyflog rhywedd cymedrig yw'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog menywod a dynion.

4 Y bwlch cyflog rhywedd canolrifol yw'r gwahaniaeth rhwng y canolbwyntiau yn yr amrediad o enillion menywod a dynion – mae'n cymryd yr holl gyflogau yn y sampl, eu trefnu o'r isaf i'r uchaf ac yn dewis y cyflog canol.

## Gweithgarwch Recriwtio


Mae'r tablau isod yn dangos gweithgarwch recriwtio yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae recriwtio allanol yn cyfeirio at bob ymgeisydd allanol, mae recriwtio mewnol yn cyfeirio at y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sefydliad ac sy'n gwneud cais i newid rôl a/neu radd.

## Ceisiadau Allanol am Swyddi

(Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda Llywodraeth Cymru – 1 Ebrill 2023 – Mawrth 2024)


**Tabl 16a** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Rhyw

| Rhyw | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Menywod | 1,910 |
| Dynion | 1,490 |
| Arall | 10 |
| Heb ddatgan | 10 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 70 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |





**Tabl 16b** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Oedran

| Oedran | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| 16-24 | 360 |
| 25-29 | 490 |
| 30-34 | 450 |
| 35-39 | 470 |
| 40-44 | 440 |
| 45-49 | 300 |
| 50-54 | 240 |
| 55-59 | 160 |
| 60-64 | 80 |
| 65+ | 10 |
| Heb ddatgan | 420 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 70 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |



**Tabl 16c** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Anabledd

| Anabledd | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Anabl | 600 |
| Ddim yn Anabl | 2,810 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 80 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |





**Tabl 16d** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Hil

| Hil | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 40 |
| Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 10 |
| Unrhyw gefndir Cymysg / Aml-ethnig arall | 20 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 160 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd | 10 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd | 20 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Indiaidd | 100 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd | 50 |
| Du /Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig – Affricanaidd | 70 |
| Du /Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig – Caribïaidd | 60 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn ac Asiaidd | 30 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Affricanaidd | 10 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Caribïaidd | 20 |
| Grŵp ethnig arall – Unrhyw grŵp ethnig arall | 10 |
| Grŵp ethnig arall – Arabaidd | 20 |
| Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | * |
| Gwyn – Gwyddelig | 30 |
| Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig | 2,740 |
| Heb ddatgan | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 90 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |


**Tabl 16e** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Crefydd neu Gred

| Crefydd/Cred | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Unrhyw grefydd arall | 570 |
| Bwdhaeth | 30 |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 1,240 |
| Hindŵaeth | 60 |
| Iddewiaeth | 10 |
| Islam | 110 |
| Dim Crefydd | 1,180 |
| Sikhiaeth | 40 |
| Heb ddatgan | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 250 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |





**Tabl 16f** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 2,810 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 400 |
| Heb ddatgan | 10 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 270 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |





**Tabl16g** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Priodas/Partneriaeth Sifil

| Priod/Partneriaeth Sifil | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Na | 1,770 |
| Ie | 1,580 |
| Heb ddatgan | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 140 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |




**Tabl 16h** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni)

| Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Ddim yr un peth | 20 |
| Yr un peth | 1,940 |
| Heb ddatgan | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 40 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |





**Tabl 16i** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Beichiogrwydd a Mamolaeth

| Yn Feichiog ar Hyn o Bryd/Wedi Bod yn Feichiog yn ystod y Flwyddyn diwethaf | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Na | 3,350 |
| Ie | 60 |
| Heb ddatgan | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 80 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |




**Tabl16j** – Ceisiadau Allanol am Swyddi – Absenoldeb Mamolaeth yn ystod y Flwyddyn diwethaf

| Absenoldeb Mamolaeth yn ystod y Flwyddyn diwethaf | Cyfanswm[1] |
|---|---|
| Na | 20 |
| Anhysbys /Ni Ofynnwyd am y Wybodaeth | 3,300 |
| Ie | 20 |
| **Cyfanswm[1]** | **3,490** |



## Ceisiadau Mewnol am Swyddi

(Cyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swyddi – 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024). Pob Gradd.

**Tabl 17a** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Rhyw

| Rhyw | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Menywod | 20 | 890 | 520 | 1,430 |
| Dynion | 10 | 600 | 260 | 870 |
| Heb ddatgan | 0 | 10 | 0 | 10 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 50 | 10 | 70 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17b** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Oedran

| Oedran | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 20 | 10 | 30 |
| 25-29 | 0 | 130 | 80 | 210 |
| 30-34 | 0 | 210 | 100 | 320 |
| 35-39 | 0 | 240 | 140 | 390 |
| 40-44 | 10 | 320 | 170 | 500 |
| 45-49 | 10 | 210 | 110 | 330 |
| 50-54 | 10 | 180 | 90 | 270 |
| 55-60 | 0 | 120 | 50 | 170 |
| 60-64 | 0 | 30 | 10 | 40 |
| 65+ | 0 | * | 0 | * |
| Heb ddatgan | 0 | 10 | 0 | 10 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 90 | 30 | 110 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17c** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Anabledd

| Anabledd | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Anabl | * | 210 | 90 | 300 |
| Ddim yn Anabl | 20 | 1,340 | 700 | 2,060 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 10 | * | 20 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17d** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Hil

| Hil | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 | * | * | 10 |
| Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 0 | 0 | * | 0 |
| Unrhyw gefndir Cymysg / Aml-ethnig arall | 0 | 10 | * | 10 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 0 | 40 | 20 | 60 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd | 0 | * | * | * |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd | 0 | 10 | * | 10 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Indiaidd | 0 | 10 | * | 10 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd | 0 | 10 | * | 10 |
| Du /Affricanaidd /Caribïaidd / Du Prydeinig – Affricanaidd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Du /Affricanaidd /Caribïaidd / Du Prydeinig – Caribïaidd | 0 | * | 0 | * |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn ac Asiaidd | 0 | 20 | 10 | 20 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | * | 0 | * |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 10 | 10 | 10 |
| Grŵp ethnig arall – Unrhyw grŵp ethnig arall | 0 | 10 | * | 10 |
| Grŵp ethnig arall – Arabaidd | 0 | * | * | * |
| Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwyn – Gwyddelig | 0 | 20 | 10 | 30 |
| Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig | 30 | 1,360 | 720 | 2,110 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 70 | 20 | 90 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17e** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Crefydd neu Gred

| Crefydd/Cred | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw grefydd arall | 10 | 50 | 40 | 100 |
| Bwdhaeth | 0 | 10 | 10 | 10 |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 10 | 510 | 240 | * |
| Hindŵaeth | 0 | * | * | 10 |
| Iddewiaeth | 0 | 10 | * | * |
| Islam | 0 | 10 | 10 | 20 |
| Dim Crefydd | 10 | 810 | 420 | * |
| Sikhiaeth | 0 | 10 | 10 | 10 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 150 | 60 | 210 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17f** –– Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 20 | 1,320 | 690 | 2,030 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | * | 100 | 60 | 160 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 130 | 50 | 180 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17g** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Priodas/Partneriaeth Sifil

| Priod/Partneriaeth Sifil | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 10 | 620 | 340 | 960 |
| Ie | 20 | 850 | 430 | 1,300 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 90 | 30 | 120 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17h** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni

| Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ie | 30 | 170 | 130 | 330 |
| Heb ddatgan | * | 1,380 | 660 | 2,040 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | * | 0 | * |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17i** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Beichiog/Beichiog yn ystod y Flwyddyn diwethaf

| Yn Feichiog Ar Hyn o Bryd/Wedi Bod yn Feichiog yn ystod y Flwyddyn diwethaf | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 30 | 1,480 | 760 | 2,270 |
| Ie | * | 10 | 20 | 30 |
| Heb ddatgan | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 60 | 20 | 80 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

**Tabl 17j** – Ceisiadau Mewnol am Swyddi – Absenoldeb Mamolaeth yn ystod y Flwyddyn diwethaf

| Absenoldeb Mamolaeth yn ystod y Flwyddyn diwethaf | Heb Symud Ymlaen*** | Aflwyddiannus | Llwyddiannus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Na | 0 | 0 | * | * |
| Ie | * | * | * | 10 |
| Anhysbys / Ni Ofynnwyd am y Wybodaeth | 30 | 1,550 | 790 | 2,370 |
| **Cyfanswm[1]** | **30** | **1,550** | **790** | **2,370** |

*** Ystyr 'Heb symud ymlaen' yw bod yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl/wedi dewis peidio â mynychu asesiad, bod y swydd wag wedi'i thynnu'n ôl neu fod y cynnig wedi'i wrthod.

Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd y cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

# Pennod 4:
# Cyflogwr Delfrydol

## Bod yn gyflogwr delfrydol

Nod Llywodraeth Cymru yw bod yn gyflogwr delfrydol, er mwyn annog a chadw gweithlu amrywiol a thalentog. Mae tegwch, creadigrwydd, partneriaeth a phroffesiynoldeb wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith hyblyg a chefnogol lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant cyflogeion. Rydym yn annog ein holl gyflogeion yn frwd i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir.

Drwy gynnig cyflog cystadleuol, pensiwn hael, cynrychiolaeth Undebol ac amrywiaeth eang o fuddiannau i gyflogeion, mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd fel Cyflogwr Cyflog Byw. Mae'n cynnig opsiynau gweithio hyblyg, gan gynnwys gweithio'n rhan amser/rhannu swydd, gweithio yn ystod y tymor ac oriau cywasgedig. Rydym wedi mabwysiadu dull hybrid o weithio o bell, yn y swyddfa neu ar y safle, gyda gweithleoedd dros y wlad i gyd.

Mae gan gyflogeion amser llawn yr hawl i 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint. Mae ein cyfres o bolisïau absenoldeb teuluol yn hael, ac mae ein holl bolisïau yn gwbl gynhwysol. Rydym yn rhoi absenoldeb arbennig i gyflogeion anabl ac yn cynnig addasiadau rhesymol i staff, o ran gwaith a recriwtio. Ceir cymuned ffyniannus o rwydweithiau a grwpiau staff, timau Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol penodol yn ogystal â Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

**Mae achrediadau, aelodaeth ac addunedau sefydliadol yn cynnwys:**

- Siarter Hil i Gyflogwyr Busnes yn y Gymuned
- Pledge to Be Seen Changing Faces
- Achrediad Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 (Arweinydd)
- Aelodau o Employers for Carers
- Cyflogwr sy'n Ystyriol o Endometriosis
- Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall
- Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr
- Achrediad y Rhuban Gwyn
- Addewid Menopos y Gweithle

## Rhwydweithiau Staff

Ceir cymuned fywiog o rhwydweithiau a grwpiau staff. Mae’r chwe rhwydwaith staff yn rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan alluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Maent hefyd yn ein helpu i ddatblygu polisïau mewnol a chynnal asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb. Mae cyd-gadeiryddion y chwe rhwydwaith hyn yn aelodau o’n Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae ganddynt Noddwyr Bwrdd a Hyrwyddwyr Uwch Wasanaeth Sifil.

### Y rhwydweithiau yw:

**Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd –** y rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn darparu cyngor ar effaith polisïau, arferion ac amgylcheddau cyflogaeth ar staff anabl, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

**Materion y Meddwl –** y rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant meddyliol, gan gynnwys staff sydd a phrofiad personol neu sy’n rheoli neu’n gofalu am rywun y mae iechyd meddwl yn effeithio arnynt.

**Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol –** y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n darparu sicrwydd cydraddoldeb ar gyfer polisïau ac yn helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sydd o fudd i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae’r rhwydwaith yn gweithio'n agos gyda ni ar ddod yn sefydliad gwrth-hiliol.

**Y Rhwydwaith Niwroamrywiaeth –** yn cefnogi cydweithwyr niwrowahanol ar draws y sefydliad ac yn gwella dealltwriaeth o’r modd y mae niwrogynhwysiant yn gwella'r gweithle i bawb.

**PRISM –** y rhwydwaith staff cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n uniaethu’n lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws neu amrywiadol ryweddol.

**Menywod Ynghyd –** nodau'r rhwydwaith hwn yw darparu llais unedig ar y materion sy'n wynebu menywod ar draws y sefydliad a sicrhau cydraddoldeb rhywedd.

Ceir hefyd nifer o grwpiau cymorth cymheiriaid sy’n cwmpasu amrywiaeth o ddiddordebau a phrofiadau a rennir.

## Partneriaeth Gymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnwys staff mewn materion sy'n effeithio ar eu swyddi a'u bywyd gwaith. Mae'n gwneud hynny, yn bennaf, drwy ei hundebau llafur cydnabyddedig – PCS, Prospect a FDA.

Mae undebau llafur Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi sefydliad effeithiol, effeithlon, amrywiol a chynhwysol er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni eu blaenoriaethau i Gymru. I wneud hyn, mae rheolwyr ac undebau llafur Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn:

- cyfrannu safbwyntiau undebau llafur a'r cyflogwr at y gwaith o ddatblygu strategaeth a pholisi'r gweithlu a'u rhoi ar waith
- cynnal trafodaeth adeiladol ar strategaethau a pholisïau newydd ar gam ffurfiannol
- hyrwyddo cyfathrebu effeithiol rhwng partneriaid

Mae'r ddwy ochr yn cydnabod mai gweithio gyda'i gilydd ar sail cydweithrediad, tryloywder ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr yw'r ffordd orau o alluogi'r sefydliad i addasu i amgylchiadau newydd a chyfyngiadau ariannol er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i lwyddo, gan weithio i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar yr un pryd.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnig buddiannau pwysig i'r ddwy ochr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- penderfyniadau gwell
- dealltwriaeth well ar y ddwy ochr o'r heriau a'u heffaith ar y gweithlu
- cronfa eang o brofiad a syniadau i ddatblygu strategaeth a pholisi'r gweithlu
- gweithredu strategaeth a pholisi'r gweithlu yn fwy effeithiol
- arferion cyflogaeth o safon uchel
- ymgysylltiad ac ymrwymiad gwell o fewn y gweithlu.

**Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae ei hundebau llafur cydnabyddedig yn ei chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle drwy:**

Hyrwyddo hawliau cyfartal i bob aelod drwy geisio negodi polisïau a gweithdrefnau sy'n datblygu cydraddoldeb ac nad ydynt yn rhoi un grŵp o dan anfantais anghymesur

Creu awyrgylch cefnogol yn y gwaith lle mae pob aelod yn teimlo y gall gymryd rhan, bod ei safbwyntiau yn bwysig a'i bod yn ddiogel iddo ddweud pan ei fod yn amau achosion o aflonyddu neu wahaniaethu yn y gwaith, heb boeni am ganlyniadau negyddol.

Herio achosion o aflonyddu a gwahaniaethu a sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn effeithiol

Gweithio fel model rôl wrth drin pawb yn deg

## Arolwg Pobl

Cynhaliwyd yr Arolwg Pobl yn Llywodraeth Cymru rhwng mis Medi a mis Hydref 2023 a chafwyd cyfradd ymateb o 69%.

### Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion

- Cafodd Llywodraeth Cymru Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion o 66%, sydd wedi cynyddu ychydig o 65% yn 2022.
- Staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol a staff benywaidd a oedd yn cyfrif am y sgôr ymgysylltiad uchaf (69%) o blith y grwpiau cydraddoldeb allweddol (isod), a staff anabl a nododd y sgôr isaf (64%).
- Staff anabl oedd yr unig grŵp cydraddoldeb i nodi sgôr ymgysylltiad is na'u grŵp cymharu dim cydraddoldeb[5] (h.y. 4 pwynt canrannol yn is na sgôr staff nad oeddent yn anabl[6]).
- Staff ethnig leiafrifol oedd yr unig grŵp cydraddoldeb lle y gwelwyd lefel is o ymgysylltiad o gymharu â 2022 (gostyngiad o 2 bwynt canrannol).

| | | Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion 2023 | Sgôr Ymgysylltiad Cyflogeion 2022 |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Lleiafrif Ethnig | 67% | 69% |
| | Staff Gwyn | 67% | 67% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | 69% | 69% |
| | Staff strêt / heterorywiol | 67% | 66% |
| Rhyw[7] | Staff benywaidd | 69% | 68% |
| | Staff gwrywaidd | 65% | 64% |
| Anabledd | Staff anabl | 64% | 64% |
| | Staff nad ydynt yn anabl | 67% | 67% |

5 Grwpiau cymharu dim cydraddoldeb yw staff gwyn, staff strêt/heterorywiol, staff gwrywaidd a staff nad ydynt yn anabl.
6 Noder bod y sgoriau yn y tabl wedi'u talgrynnu ond mae gwahaniaethau neu newidiadau ar ffurf pwyntiau canrannol yn seiliedig ar ffigurau crai.
7 Mae'r canlyniadau ar gyfer staff benywaidd yn seiliedig ar hunaniaeth rhyw/rhywedd gyfansawdd sy'n wahanol i'r Arolwg Pobl.

## Cynhwysiant a Thriniaeth Deg

Cafodd Llywodraeth Cymru sgôr o 85% ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg, sydd wedi cynyddu ychydig o 84% yn 2022.

Staff benywaidd a oedd yn cyfrif am y sgôr uchaf ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg (88%) o blith y grwpiau cydraddoldeb allweddol, a staff anabl a nododd y sgôr isaf (80%).

Nododd y rhan fwyaf o'r grwpiau cydraddoldeb sgôr is ar gyfer y thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg na'u grŵp cymharu dim cydraddoldeb:

Nododd staff anabl sgôr llawer is na'r rhai nad oeddent yn anabl (9 pwynt canrannol yn is).

Menywod oedd yr unig grŵp cydraddoldeb a nododd sgôr uwch na'u grŵp cymharu dim cydraddoldeb (h.y. 2 bwynt canrannol yn uwch na staff gwrywaidd).

Staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol oedd yr unig grŵp cydraddoldeb lle y gwelwyd gostyngiad yn y sgôr ar gyfer Cynhwysiant a Thriniaeth Deg ers 2022 a hynny o 1 pwynt canrannol yn unig[8]. Ni welwyd unrhyw newid ers 2022 ymhlith y grwpiau cydraddoldeb eraill.

| | | Sgôr Cynhwysiant a Thriniaeth Deg 2023 | Sgôr Cynhwysiant a Thriniaeth Deg 2022 |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Lleiafrif Ethnig | 84% | 84% |
| | Staff Gwyn | 87% | 87% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | 87% | 87% |
| | Staff strêt / heterorywiol | 88% | 86% |
| Rhyw | Staff benywaidd | 88% | 88% |
| | Staff gwrywaidd | 87% | 85% |
| Anabledd | Staff anabl | 80% | 80% |
| | Staff nad ydynt yn anabl | 89% | 88% |

8 Fel y nodir uchod, ffigurau wedi'u talgrynnu yw'r sgoriau yn y tabl, felly maent wedi cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr i 87%, yn dibynnu ar yr union sgoriau. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur yn talgrynnu i 1 ganran. Sgôr yn 2023 = 86.52 (yn talgrynnu i fyny i 87%) Sgôr yn 2022 = 87.18 (yn talgrynnu i lawr i 87%) Y gwahaniaeth yw -0.67 (yn talgrynnu i -1%)

# Atodiad A

## Cynrychiolaeth y Gweithlu Wedi'i Dadgyfuno

Yn ôl Hil, Crefydd/Cred, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Statws Priodasol

| Hil | Nifer | % |
|---|---|---|
| Arabaidd | 10 | 0 |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 10 | 0 |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 10 | 0 |
| Asiaidd – Indiaidd | 30 | 0 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 20 | 0 |
| Du – Affricanaidd | 10 | 0 |
| Du – Caribïaidd | 10 | 0 |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | * | 0 |
| Asiaidd a Gwyn Cymysg | 20 | 0 |
| Du Affricanaidd a Gwyn Cymysg | 10 | 0 |
| Du Caribïaidd a Gwyn Cymysg | 10 | 0 |
| Cefndir Asiaidd Arall | 10 | 0 |
| Unrhyw Gefndir Du Arall | * | 0 |
| Grŵp Ethnig Arall | 20 | 0 |
| Cefndir Ethnig Cymysg Arall | 30 | 0 |
| Gwyn | 5,370 | 88 |
| Heb ddatgan | 340 | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 240 | 4 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |

| Crefydd/Cred | Nifer | % |
|---|---|---|
| Agnosticiaeth | 420 | 7 |
| Anffyddiaeth | 620 | 10 |
| Baha'i | * | 0 |
| Bwdhaeth | 10 | 0 |
| Cristnogaeth | 2,230 | 36 |
| Hindŵaeth | 10 | 0 |
| Dyneiddiaeth | 10 | 0 |
| Islam | 50 | 1 |
| Jainiaeth | * | 0 |
| Iddewiaeth | 10 | 0 |
| Dim Crefydd | 930 | 15 |
| Crefydd Arall | 110 | 2 |
| Paganiaeth | 10 | 0 |
| Rastaffariaeth | * | 0 |
| Sikhiaeth | 0 | 0 |
| Taoaeth | * | 0 |
| Heb ddatgan | 390 | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,330 | 22 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |

| Anabledd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Amhariad ar y Clyw (heb gyflwr arall) | 30 | 1 |
| Amhariad ar y Clyw (â chyflwr arall...) | 10 | 0 |
| Anawsterau Dysgu (heb gyflwr arall) | 30 | 0 |
| Anawsterau Dysgu (â chyflwr arall...) | 20 | 0 |
| Salwch Meddwl (heb gyflwr arall) | 40 | 1 |
| Salwch Meddwl (â chyflwr arall...) | 20 | 0 |
| Amhariad ar Symudedd (heb gyflwr arall) | 30 | 0 |
| Amhariad ar Symudedd (â chyflwr arall...) | 30 | 0 |
| Ddim yn Anabl | 5,360 | 87 |
| Arall / Anabledd Anhysbys | 100 | 2 |
| Anawsterau Cydsymud Corfforol (heb gyflwr arall) | * | 0 |
| Galluedd Corfforol Is (heb gyflwr aralll) | 20 | 0 |
| Galluedd Corfforol Is (â chyflwr arall) | 10 | 0 |
| Amhariad ar y Lleferydd (heb gyflwr arall) | * | 0 |
| Amhariad ar y Golwg (heb gyflwr arall) | 20 | 0 |
| Amhariad ar y Golwg (â chyflwr arall...) | 10 | 0 |
| Heb ddatgan | 390 | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 20 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Deurywiol | 80 | 2 |
| Dyn Hoyw | 100 | 2 |
| Menyw Hoyw/Lesbiad | 60 | 1 |
| Heterorywiol / Strêt | 4,760 | 78 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 40 | 1 |
| Heb ddatgan | 420 | 7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 680 | 11 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |


| Statws Priodasol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Partneriaeth Sifil | 30 | 1 |
| Cyd-fyw | 40 | 1 |
| Wedi ysgaru | 270 | 5 |
| Yn briod | 2,890 | 47 |
| Partneriaeth Gofrestredig | 330 | 5 |
| Wedi gwahanu | 10 | 0 |
| Sengl | 1,560 | 25 |
| Gweddw | 30 | 1 |
| Heb ddatgan | 980 | 16 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **6,140** | |

Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd y cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.


# Atodiad B

## Data ar Ymadawyr yn ôl Nodwedd Warchodedig


| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Menywod | 190 | 55 |
| Dynion | 160 | 45 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |





| Ystod Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 16-24 | 10 | 3 |
| 25-29 | 40 | 11 |
| 30-34 | 40 | 12 |
| 35-39 | 30 | 8 |
| 40-44 | 30 | 9 |
| 45-49 | 10 | 4 |
| 50-54 | 30 | 8 |
| 55-59 | 30 | 9 |
| 60-64 | 50 | 15 |
| 65+ | 70 | 21 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |





| Anabledd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Anabl | 30 | 8 |
| Ddim yn Anabl | 270 | 76 |
| Heb ddatgan | 60 | 16 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |




| Hil | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ethnigrwydd Arall | 20 | 6 |
| Gwyn | 260 | 75 |
| Heb ddatgan | 60 | 16 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 3 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |




| Crefydd/Cred | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 120 | 34 |
| Crefydd/Cred Arall | 70 | 19 |
| Dim Crefydd/Cred | 50 | 15 |
| Heb ddatgan | 60 | 17 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 60 | 16 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |





| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 240 | 69 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | 20 | 7 |
| Heb ddatgan | 60 | 17 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 7 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |





| Mamolaeth/ Beichiogrwydd* | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ie | 0 | 0 |
| Na | 350 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |



| Statws Priodasol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Priod/Partneriaeth Sifil | 140 | 40 |
| Sengl | 110 | 33 |
| Statws Arall | 80 | 24 |
| Heb ddatgan | 10 | 4 |
| *Gwell gennyf beidio â dweud* | *0* | |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |




| Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Na | * | 0 |
| Ie | 190 | 54 |
| Heb ddatgan | 160 | 44 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 2 |
| **Cyfanswm[1]** | **350** | |




Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd y cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

## Atodiad C


# Data ar Gwynion Cyflogaeth ac Achosion Disgyblu (gan gynnwys achosion Urddas yn y Gwaith) yn ôl Nodwedd Warchodedig

Mae nifer y cwynion cyflogaeth a'r achosion disgyblu wedi cael eu grwpio. Oherwydd y niferoedd bach dan sylw, byddai gwahanu nifer y cwynion cyflogaeth ac achosion disgyblu yn peri i'r data gael eu cadw'n ôl a'u dynodi ag*.


| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Menywod | 30 | 47 |
| Dynion | 30 | 53 |
| **Cyfanswm[1]** | **50** | |





| Ystod Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 0 |
| 25-29 | * | 2 |
| 30-34 | * | 6 |
| 35-39 | 10 | 19 |
| 40-44 | 10 | 15 |
| 45-49 | 10 | 17 |
| 50-54 | * | 8 |
| 55-59 | 10 | 13 |
| 60-64 | 10 | 21 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **50** | |





| Anabledd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Anabl | 10 | 13 |
| Ddim yn Anabl | 40 | 79 |
| Heb ddatgan | * | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 2 |
| **Cyfanswm[1]** | **50** | |




| **Hil** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ethnigrwydd Arall | 10 | 9 |
| Gwyn | 40 | 83 |
| Heb ddatgan | * | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 2 |
| **Cyfanswm**[1] | **50** | |




| **Crefydd/Cred** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Crefydd/Cred Arall | 20 | 30 |
| Cristnogaeth | 20 | 32 |
| Dim Crefydd/Cred | 10 | 17 |
| Heb ddatgan | * | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 15 |
| **Cyfanswm**[1] | **50** | |





| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 40 | 83 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol Arall | * | 6 |
| Heb ddatgan | * | 6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 6 |
| **Cyfanswm**[1] | **50** | |





| **Mamolaeth/ Beichiogrwydd*** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ie | 0 | 0 |
| Na | 50 | 100 |
| **Cyfanswm**[1] | **50** | |



| **Statws Priodasol** | **Nifer** | **%** |
| --- | --- | --- |
| Priod/Partneriaeth Sifil | 10 | 19 |
| Sengl | 10 | 25 |
| Statws Arall | 20 | 40 |
| Heb ddatgan | 10 | 17 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm[1]** | **50** | |




| **Ailbennu Rhywedd (Yr un peth â'r rhyw a bennwyd adeg geni)** | **Nifer** | **%** |
| --- | --- | --- |
| Na | 0 | 0 |
| Ie | 30 | 57 |
| Heb ddatgan | 20 | 42 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * | 2 |
| **Cyfanswm[1]** | **50** | |




Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae ffigurau islaw 5 wedi'u hatal a'u dynodi â *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu. [1]Efallai na fydd y cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

# Atodiad D

## Bylchau Cyflog

### Bwlch Cyflog Rhywedd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,970 o [9]staff: sy'n cynnwys 3,620 o fenywod (61%) a 2,350 o ddynion (39%).

Bwlch Cyflog Rhywedd Llywodraeth Cymru:Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024.

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) dynion | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol dynion | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £45,192 | £48,118 | 6.08% | £41,675 | £41,675 | 0.00% |
| Cyflog yr awr | £23.49 | £25.01 | | £21.66 | £21.66 | |

**Bwlch Cyflog Rhywedd yn ôl Gradd:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) dynion | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol dynion | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm | Cyflog | £26,284 | £26,358 | 0.28% | £26,901 | £26,901 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £13.66 | £13.70 | | £13.98 | £13.98 | |
| Swyddog Gweithredol | Cyflog | £31,433 | £31,445 | 0.04% | £32,141 | £32,141 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £16.34 | £16.34 | | £16.71 | £16.71 | |
| Swyddog Gweithredol Uwch | Cyflog | £40,180 | £40,022 | -0.39% | £41,675 | £41,675 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £20.88 | £20.80 | | £21.66 | £21.66 | |
| Uwch-swyddog Gweithredol | Cyflog | £49,825 | £49,862 | 0.07% | £51,839 | £51,839 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £25.90 | £25.92 | | £26.94 | £26.94 | |
| Gradd 7 | Cyflog | £64,821 | £65,219 | 0.61% | £67,095 | £67,095 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £33.69 | £33.90 | | £34.87 | £34.87 | |
| Gradd 6 | Cyflog | £77,381 | £78,835 | 1.84% | £80,840 | £80,840 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £40.22 | £40.97 | | £42.02 | £42.02 | |
| Uwch Wasanaeth Sifil | Cyflog | £92,885 | £97,919 | 5.14% | £88,130 | £88,296 | 0.19% |
| | Cyflog yr awr | £48.28 | £50.89 | | £45.81 | £45.89 | |

9 Dyma nifer y staff (wedi'i dalgrynnu) ar system y gyflogres ar 31 Mawrth 2024.Efallai na fydd yn cyfansymio â chyfansymiau eraill yn yr adroddiad hwn am sawl rheswm, gan gynnwys secondiadau nad ydynt ar y gyflogres, staff yn ymuno ar ôl cau'r gyflogres a staff sydd wedi gadael ond a gafodd eu taliad olaf ar ôl y cyfnod adrodd.

**Bwlch Cyflog Rhywedd yn ôl Grŵp Gradd:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) dynion | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol dynion | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a Swyddogion Gweithredol | Cyflog | £29,024 | £29,360 | 1.14% | £28,245 | £29,285 | 3.55% |
| | Cyflog yr awr | £15.09 | £15.26 | | £14.68 | £15.22 | |
| Swyddogion Gweithredol Uwch ac Uwch-swyddogion Gweithredol | Cyflog | £44,825 | £45,055 | 0.51% | £41,675 | £43,785 | 4.82% |
| | Cyflog yr awr | £23.30 | £23.42 | | £21.66 | £22.76 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a'r Uwch Wasanaeth Sifil | Cyflog | £69,812 | £73,287 | 4.74% | £67,095 | £67,095 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £36.28 | £38.09 | | £34.87 | £34.87 | |

## Bwlch Cyflog Ethnigrwydd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,970 o staff: 180 o staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (3%) a 5,270 o staff Gwyn (97%). Ni chafodd 520 o staff nad ydynt wedi datgan eu hethnigrwydd ar y system adnoddau dynol eu cynnwys.

**Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Llywodraeth Cymru:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff ethnig leiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig | Cyflog canolrifol staff ethnig leiafrifol | Cyflog canolrifol staff gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £44,951 | £46,717 | 3.78% | £41,675 | £41,675 | 0.00% |
| Cyflog yr awr | £23.36 | £24.28 | | £21.66 | £21.66 | |

**Bwlch Cyflog Ethnigrwydd yn ôl Grŵp Gradd:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff ethnig leiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig | Cyflog canolrifol staff ethnig leiafrifol | Cyflog canolrifol staff gwyn | Bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a Swyddogion Gweithredol | Cyflog | £29,718 | £29,391 | -1.11% | £32,141 | £29,285 | -9.75% |
| | Cyflog yr awr | £15.45 | £15.28 | | £16.71 | £15.22 | |
| Swyddogion Gweithredol Uwch ac Uwch-swyddogion Gweithredol | Cyflog | £44,412 | £45,034 | 1.38% | £41,675 | £41,675 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £23.08 | £23.41 | | £21.66 | £21.66 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a'r Uwch Wasanaeth Sifil | Cyflog | £71,451 | £71,532 | 0.11% | £67,095 | £67,095 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £37.14 | £35.37 | | £34.87 | £34.87 | |

## Bwlch Cyflog Anabledd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,970 o staff: nododd 390 eu bod yn anabl (7%) a nododd 5,250 nad oeddent yn anabl (93%). Ni chafodd 330 o staff nad ydynt wedi datgan a ydynt yn anabl ar y system adnoddau dynol eu cynnwys.

**Bwlch Cyflog Anabledd Llywodraeth Cymru:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff anabl | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd cymedrig | Cyflog canolrifol staff anabl | Cyflog canolrifol staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £45,014 | £46,941 | 4.10% | £41,675 | £41,675 | 0.00% |
| Cyflog yr awr | £23.40 | £24.40 | | £21.66 | £21.66 | |

**Bwlch Cyflog Anabledd yn ôl Grŵp Gradd:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff anabl | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd cymedrig | Cyflog canolrifol staff anabl | Cyflog canolrifol staff nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog anabledd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a Swyddogion Gweithredol | Cyflog | £29,323 | £29,466 | 0.49% | £26,900 | £27,890 | 3.55% |
| | Cyflog yr awr | £15.24 | £15.32 | | £13.98 | £14.50 | |
| Swyddogion Gweithredol Uwch ac Uwch-swyddogion Gweithredol | Cyflog | £43,857 | £45,149 | 2.86% | £41,675 | £41,675 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £22.79 | £23.47 | | £21.66 | £21.66 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a'r Uwch Wasanaeth Sifil | Cyflog | £72,224 | £71,530 | -0.97% | £67,095 | £67,095 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £37.54 | £37.18 | | £34.87 | £34.87 | |

## Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,970 o staff: nododd 270 fod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol (5%) a nododd 4,660 eu bod yn heterorywiol (95%). Ni chafodd 1,040 o staff nad ydynt wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol ar y system adnoddau dynol eu cynnwys.

**Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol Llywodraeth Cymru:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol cymedrig | Cyflog canolrifol staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog canolrifol heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £47,352 | £46,681 | -1.44% | £43,785 | £41,675 | -5.06% |
| Cyflog yr awr | £24.61 | £24.26 | | £22.76 | £21.66 | |

**Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol yn ôl Grŵp Gradd:** Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2024

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol cymedrig | Cyflog canolrifol staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog canolrifol heterorywiol | Bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm a Swyddogion Gweithredol | Cyflog | £29,205 | £29,469 | 0.90% | £29,285 | £29,285 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £15.18 | £15.32 | | £15.22 | £15.22 | |
| Swyddogion Gweithredol Uwch ac Uwch-swyddogion Gweithredol | Cyflog | £44,496 | £45,083 | 1.30% | £43,785 | £41,675 | -5.06% |
| | Cyflog yr awr | £23.13 | £23.43 | | £22.76 | £21.66 | |
| Gradd 7, Gradd 6 a'r Uwch Wasanaeth Sifil | Cyflog | £71,471 | £71,638 | 0.23% | £67,095 | £67,095 | 0.00% |
| | Cyflog yr awr | £37.15 | £37.23 | | £34.87 | £34.87 | |

## Atodiad E

# Adduned Menywod yn y Gyfraith

**Adduned Menywod yn y Gyfraith**

Ymrwymiad i gydweithio i harneisio grym cydraddoldeb rhywedd i drawsnewid busnes y gyfraith yw'r adduned hon.

**Mae fy sefydliad yn addo hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd drwy:**

- Enwi aelod o'n tîm uwch-arweinwyr/pwyllgor rheoli sy'n atebol am amrywiaeth a chynhwysiant rhywedd
- Pennu targedau penodol o ran rhywedd ar lefel arweinwyr ac ar lefelau eraill fel y bo'n briodol
- Ystyried y canlyniadau gwahanol i grwpiau gwahanol o fenywod ar bob lefel o'r sefydliad e.e. eu cefndir, eu hunaniaeth a'u hystod o brofiadau
- Datblygu cynllun gweithredu i sicrhau cydraddoldeb rhywedd yn ein timau o uwch-reolwyr ac uwch-arweinwyr
- Ymrwymo ar lefel uwch i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhyw, bwlio ac aflonyddu rhywiol yn y gweithle
- Ymrwymo i fynd i'r afael â diwylliant a thuedd yn y gweithle a all arwain at ganlyniadau gwahanol yn y gweithle
- Cyhoeddi ein hadduned a'n targedau a'n cynllun gweithredu
- Sicrhau bod agweddau penodol ar gyflog, gwobrwyo a chydnabod y tîm uwch-arweinwyr yn gysylltiedig â chyflawni yn erbyn y targedau cydraddoldeb rhywedd hyn fel y bo'n gymwys

**Enw'r Sefydliad/Eiriolwr:**
Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru

**Sector/Diwydiant:** Llywodraeth/Sector Cyhoeddus

**Uwch-arweinydd sy'n gyfrifol am yr ymrwymiad:**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru, sef Nia James ar hyn o bryd ar sail dros dro a Stephanie Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**Rhowch grynodeb o'r gweithgareddau rydych yn bwriadu eu cyflawni er mwyn cefnogi'r adduned a sut y caiff cynnydd ei fonitro.**

Mae Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain y ffordd yn y proffesiwn cyfreithiol o ran cydraddoldeb rhywedd, a cheir tystiolaeth o hyn yn yr ystadegau canlynol:

Ar lefel yr adran, y rhaniad o ran rhywedd yw 70.6% o fenywod, 29.4% o ddynion.

Ar lefel uwch-reolwyr (1 Cyfarwyddwr ac 8 Dirprwy Gyfarwyddwr), y rhaniad o ran rhywedd yw 66.66% (dwy ran o dair) o fenywod, 33.33% (un rhan o dair) o ddynion, ynghyd â Chyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol, Nia James, menyw. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn Bennaeth y Proffesiwn Cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru.

Ar lefel uwch-gyfreithwyr/arweinwyr tîm (Gradd 6) y rhaniad yw 72% o fenywod, 28% o ddynion.

O ran yr addunedau:

1. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i fod yn atebol am amrywiaeth rhywedd a chynhwysiant yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd holl aelodau Bwrdd Rheoli'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, gan gynnwys drwy fod yn aelodau o'r rhwydweithiau staff.

2. Mae targedau penodol ynglŷn â rhywedd wedi cael eu pennu a'u cyflawni yn Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gynnal cydraddoldeb rhywedd.

3. Mae gan Lywodraeth Cymru Rwydwaith ar gyfer Menywod, sydd â'r nod o ddod â phobl o wahanol gefndiroedd a meysydd yn Llywodraeth Cymru ynghyd i rannu profiadau. Mae'n annog twf personol a chyd-gymorth rhwng menywod er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial.

   Nod y rhwydwaith yw rhoi llais unedig ar y materion y mae menywod yn Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu a gweithio tuag at sicrhau cydbwysedd rhywedd drwy gynnal digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddiant a rhoi cyfleoedd datblygu i'r aelodau.

   Hefyd, gwahoddir cyfreithwragedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol i gymryd rhan yn rhaglen 'BAME[10] into Leadership' ehangach y sector cyhoeddus, sy'n darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddiant ac ymgysylltu diddorol a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, gan gynnwys cyfleoedd STEP.

   Mae Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig sawl cwrs datblygu i gyfreithwragedd, sydd wedi'u hanelu at fenywod o bob cefndir ym mhob rhan o'r sefydliad, e.e. Menywod fel uwch-arweinwyr, gweithdy Dylanwad a Gwydnwch, gweithdy Dewrder a Phresenoldeb, y mae llawer ohonynt yn cael eu cynnal gan Grŵp Whitehall a Diwydiant gyda'r nod o helpu menywod i oresgyn rhwystrau, adeiladu rhwydweithiau ac arwain fel yr hoffent ei wneud.

   Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu rhaglen mentora o chwith, wedi'i thargedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys menywod o gefndiroedd gwahanol. Mae nifer o aelodau Bwrdd Rheoli'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cymryd rhan yn y rhaglen hon.

4. Mae'r adran wedi sicrhau cydraddoldeb rhywedd ymhlith ei thimau uwch-reolwyr ac uwch-arweinwyr, ac mae'n ymrwymedig i gynnal cydraddoldeb rhywedd yn y maes hwn.

10 Nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'BAME' mwyach i gyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ond dyna enw rhaglen allanol y sector cyhoeddus.

5. Mae'r Tîm Uwch-reolwyr yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle, ac mae polisïau ar waith yn hyn o beth. Mae'r adran wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i ymdrin ag ymddygiad annerbyniol, ac anogir pob aelod o'r staff i dynnu sylw at ymddygiad annerbyniol. Penodwyd swyddog o'r tu allan i'r adran yn berson annibynnol y gall aelodau o staff yr adran gysylltu ag ef/hi os bydd ganddynt bryderon, ac nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn codi'r pryderon hynny yn uniongyrchol o fewn yr adran. Ceir hefyd Raglen Cymorth i Gyflogeion sy'n ei gwneud yn bosibl i staff gael sgyrsiau cyfrinachol â chynghorwyr hyfforddedig, annibynnol.

6. Mae polisïau gweithio'n glyfar a phecyn TGCh i hwyluso gweithio hyblyg ar waith i greu diwylliant hyblyg i bawb sy'n ystyried anghenion a phatrymau gwaith gwahanol. Mae gan bob tîm Siarter Tîm i sicrhau y caiff anghenion pob aelod o'r tîm eu hadlewyrchu yn nhrefniadau gweithio tîm a bod hynny'n parchu anghenion unigol pobl.

   Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod ar-lein, ac mae'r bwrdd rheoli yn ymgymryd â hyfforddiant wyneb yn wyneb.

   Anogir pob aelod o'r staff i gymryd rhan ym Mhrawf 'Gender IQ' Prifysgol Havard.

7. Caiff manylion adduned Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r data cysylltiedig eu cyhoeddi fel rhan o Adroddiad Cydraddoldeb y Cyflogwr a fydd yn ymddangos ar wefan allanol Llywodraeth Cymru.

8. Pennir cyflogau yn Llywodraeth Cymru yn ganolog, ac mae'r broses wedi'i llywio gan y Gwasanaeth Sifil ehangach.